

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

### Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/7/2019

**Presennol:** Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Lindsey Ellis-Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Karl Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**2013 Croesawyd** yr aelodau a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nia Heledd Jones.

**2014 Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**2015 Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mehefin 4ydd, 2019.

**2016 Materion y Clerc :** Derbyniwyd ymateb Heddlu Gogledd Cymru i bryder am oryrru ar hyd yr A494; nid yw'r ardal wrth stryd Y Prys yn cael sylw ar hyn o bryd ond byddant yn ystyried sylwadau'r Cyngor.

Cytunwyd i Gynghorwyr anfon sylwadau am Bash Fawr Y Bala at y Clerc ar gyfer cyfarfod adborth pan gynhelir hwnnw.

**2017 Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a soniodd am newidiadau i'r system gosod eiddo cymdeithasol a fydd yn rhoi mwy o gredyd i'r sawl sydd â chysylltiad efo Gwynedd yn y pum mlynedd diwethaf, a mwy fyth i bobl sydd â chysylltiad gyda'r gymuned. Bydd y system hon yn dod i rym yn yr Hydref a chytunwyd bod rhoi blaenoriaeth i bobl leol yn gam i'w gymeradwyo.

Adroddodd ymhellach y bydd bin a fydd yn derbyn sbwriel a baw ci yn cael ei osod wrth y gilfach goffa, a'r bin sbwriel presennol yn cael ei symud i ddal gwastraff yn y fynwent. Diolchwyd iddo am drefnu hyn.

**2018 Materion Eiddo'r Cyngor:**

1. Derbyniwyd adroddiad Karl Jones ar yr eiddo; mae'n parhau i ddisgwyl prisiau ar gyfer y cynllun diwygiedig i'r toiledau.
2. Adroddodd yr is-bwyllgor Paneli Gwybodaeth fod Parc Cenedlaethol Eryri wedi dod o hyd i'r mapiau manwl erbyn hyn. Cytunwyd i hawlio'r grant.

**2019 Materion ariannol:** derbyniwyd adroddiad manwl o'r sefyllfa ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Cytunwyd i dalu cyflogau, deunyddiau swyddfa a chostau teithio i hyfforddiant yn Llanrwst. Adroddwyd fod y ffurflen cyfrifyddu flynyddol wedi ei hanfon i'r Archwilydd Allanol erbyn 1/7/19. Diolchwyd iddi am ei hadroddiad.

**2020 Materion lleol:**

Rhodddwyd ystyriaeth i ohebiaeth am y ciosg a thaclusrwydd ym Mhenantlliw. Cytunodd y Cynghorydd Alan Jones Evans i edrych mewn i'r mater ac adrodd yn ôl.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Rhodri Jones

---

Mynegwyd pryder am ddiogelwch Porth yr Eglwys, sydd yn ymddangos ei bod wedi dirywio'n ddiweddar. Cytunwyd i anfon fel mater o frys at y perchnogion, sef yr Eglwys yng Nghymru, eu penseiri ac at Adran Rheolaeth Adeiladu Cyngor Gwynedd.

Cynhelir cyfarfod gyda Parc Cenedlaethol Eryri ar 3/7/19 i gynllunio ail ran y gwaith ar Lwybr y Cei.

**2021 Cytunwyd** yn unfrydol i ddatgan cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanuwchllyn i annibyniaeth i Gymru.

**2022 Partneriaeth Penllyn:** Adroddodd y Cynrychiolwyr, Huw Antur a Alwyn E Jones, fod y Ganolfan yn llawn o denantiaid a digwyddiadau. Yn ddiweddar, trafodwyd rôl y Cwmni yn y Ganolfan Deuluol a sefydlir yn adeilad presennol Ysgol Beuno Sant.

Adroddodd Alwyn E Jones ar yr hyfforddiant a fynychodd yn Llanrwst ar gynllunio cymunedol. Gellir defnyddio arian grant i ymgysylltu gyda thrigolion Penllyn, efallai gyda chymorth Adran Ddaearyddiaeth Ysgol Godre'r Berwyn, er mwyn canfod dymuniadau trigolion. Gellir defnyddio'r grant hefyd i weithio gyda'r cynghorau cymuned a thref ym Mhenllyn i ddechrau ar gynllun bro. Mynegodd ddiddordeb mawr yn y cynllun car trydan a phwynt gwefrio at ddefnydd yr ardal.

O ran cynllunio, dywedodd y byddai'n ddymunol i rywun o Barc Cenedlaethol Eryri fynychu cyfarfod o'r Cyngor i drafod y rheolau sydd mewn grym ar hyn o bryd a thrafod anghenion Llanuwchllyn. Cytunwyd i geisio trefnu cyfarfod o'r math hwn.

**2023 Gohebiaeth:**

**1. Parc Cenedlaethol Eryri:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod blynyddol Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r cynghorau; mae'r dyddiadau a'r lleoliadau yn anghyfleus i'r Cynghorau lleol, felly cytunwyd i wahodd Simon Roberts i gyfarfod mis Medi i roi amlinelliad o waith y gwardeiniaid.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am newid defnydd Eifionydd, Llanuwchllyn i fod yn annedd a chytunwyd gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd.

**2. Llywodraeth:** Derbyniwyd gwybodaeth am beidio codi treth ar doiledau cyhoeddus.

**3. Gwynedd:** Cytunwyd fod yr orsaf bleidleisio leol yn addas ac yn dderbyniol.

**4. Arall:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am fanc bwyd yn Y Bala.
- ii. E-bostiwyd gwybodaeth am waith ymchwil ar dai haf, a chytunwyd mai dewis unigolion oedd ateb neu beidio.

*Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/9/19 yn y Neuadd Bentref*

Amser gorffen: 8.35pm